# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 1 Ebrill 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(191)

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 2 - 11. Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 3.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon

Dechreuodd yr eitem am 14.19

Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf.

### 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 15.03

**Cynnig i ethol Aelodau i bwyllgorau**

**NDM5486 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol William Graham (Ceidwadwyr Cymreig) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Mohammad Asghar (Ceidwadwyr Cymreig).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Adolygiad Llywodraeth Cymru o ganlyniadau TGAU Saesneg mis Ionawr 2014

Dechreuodd yr eitem am 15.12

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: Cynnydd o ran Sicrhau Twf: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru

Dechreuodd yr eitem am 16.13

## 6 Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol) 2014

Dechreuodd yr eitem am 16.50

**NDM5432 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a Rheol Sefydlog 30A.10, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu'r Pwyllgor ar Brisio Amaethyddol) 2014 yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Chwefror 2014.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil Tai (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 16.51

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliant o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5479 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:
Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Tai (Cymru).

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw Bil Tai (Cymru) yn rhoi sylw i'r cyflenwad tai cymdeithasol.
Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 9 | 24 | 48 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

**NDM5479 Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:
Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol y Bil Tai (Cymru).

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 8 Cynnig i gytuno ar y penderfyniad ariannol mewn perthynas â’r Bil Tai (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 17.58

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5480 Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o Fil Tai (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69, sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 17.58

Daeth y cyfarfod i ben am 17.59

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 2 Ebrill 2014**